# This document is also available in English

## Strategaeth Bregusrwydd a Chamfanteisio

## Gogledd Cymru

## 2021 – 2024

# Y Diweddaraf am y Cynnydd – Mawrth 2023

**Cynnwys**


1. **Crynodeb Gweithredol 2021 – 24……………………..……………………………………..………..............3**
2. **Cyflwyniad…………………………………………………………………………………………………4**
3. **Llywodraethu……………………………………………………………………………..…………..5**
4. **Meysydd cynnydd penodol………………………………………………………………………......8**
5. **Cynllun Cyflawni a'r wybodaeth ddiweddaraf……………………………….........…………..................9 - 22**

# Crynodeb Gweithredol

**Ein gweledigaeth:**

‘Mae pobl gogledd Cymru yn gallu byw bywydau diogel, cyfartal a di-drais mewn cymunedau heb gamdriniaeth na chamfanteisio’.

Mae gogledd Cymru yn cydweithio i fynd i’r afael â phob agwedd ar drais yn erbyn merched, trais domestig, trais rhywiol, caethwasiaeth fodern, masnachu mewn pobl, troseddau mewnfudo cyfundrefnol a chamfanteisio.

Mae Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio Gogledd Cymru yn cynrychioli’r holl bartneriaid statudol ac anstatudol ledled y rhanbarth, gydag ymrwymiad i ddull cydweithredol a chydlynol o fynd i’r afael â phob elfen ar fregusrwydd a chamfanteisio.

Mae Strategaeth Bregusrwydd a Chamfanteisio Gogledd Cymru 2021-2024 yn cynnwys dull amlasiantaeth o fynd i’r afael â bregusrwydd a chamfanteisio yng ngogledd Cymru. Mae agendau Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) a Chaethwasiaeth Fodern wedi’u halinio â’r pedwar Amcan Strategol:

**PARATOI ATAL GWARCHOD YMROI**

Mae’r strategaeth yn galluogi ac yn cefnogi arferion a syniadau arloesol, yn ogystal â chefnogi gwasanaethau i ddarparu pecyn cefnogi cyflawn i ddioddefwyr, goroeswyr a’u teuluoedd. Mae’r strategaeth hefyd yn cefnogi cymunedau er mwyn hyrwyddo ethos o ddiogelwch, cydraddoldeb a lles ac yn sicrhau bod cyflawnwyr yn cael eu dal i gyfrif.

# Cyflwyniad

Cafodd Bwrdd VAWDASV eu cyfarfod olaf yng ngwanwyn 2020, cyn ailstrwythuro'r Bwrdd Strategol yn gyfan gwbl ar draws y gogledd. Yn dilyn cryn dipyn o waith ac ymgynghori, penderfynwyd uno'r rhaglen VAWDASV gyda chaethwasiaeth fodern, masnachu mewn pobl, troseddau mewnfudo cyfundrefnol a meysydd eraill o gamfanteisio troseddol. Y Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio yw enw'r trefniant newydd.

Yn 2020/21 datblygwyd strategaeth newydd a oedd yn rhoi nodau strategol clir ar gyfer y rhanbarth. Dan y strategaeth ceir Cynllun Cyflawni sy'n cynnwys amcanion tymor byr, tymor canolig a hirdymor. Mae'r cynllun hwn yn cael ei ddiweddaru i ddangos y cysylltiadau â Strategaeth VAWDASV Cymru Gyfan a'r glasbrint.

Mae'r Strategaeth Bregusrwydd a Chamfanteisio yn dangos yn glir bod gogledd Cymru wedi ymrwymo i fynd i'r afael â chamfanteisio ar y bobl fwyaf diamddiffyn yn ein cymdeithas, ac mae'n flaenoriaeth i bob partner yn y sectorau statudol ac anstatudol.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Bregusrwydd a Chamfanteisio yn rhwydwaith strategol o asiantaethau wedi'u halinio ar draws chwe awdurdod lleol y gogledd (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam), ac yn cynnwys sefydliadau statudol, anstatudol a thrydydd sector.

Pwrpas y bartneriaeth strategol yw cynhyrchu ymateb cydlynol, effeithlon a chynhyrchiol i fynd i'r afael â thrais yn erbyn merched, trais domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) a chaethwasiaeth fodern, masnachu mewn pobl, troseddau mewnfudo cyfundrefnol a chamfanteisio. Byddwn yn cyflawni hyn drwy:

- Cydweithio i sicrhau bod unigolion yn ein cymunedau a all fod yn ddiamddiffyn a/neu'n dioddef camfanteisio yn cael eu hadnabod a'u clywed er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau ar eu cyfer
- Creu ymddiriedaeth a magu hyder drwy weithio ochr yn ochr ac o fewn ein cymunedau

Mae’r Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio wedi’i ddylunio i nodi a thywys gwaith y bartneriaeth, yn ogystal â goruchwylio gwaith pob asiantaeth bartner wrth gyflawni amcanion strategol y strategaeth ranbarthol a deddfwriaethau cenedlaethol perthnasol.

Mae’r strategaeth bresennol yn cynnwys gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud dan y rhaglen trais yn erbyn merched, trais domestig a thrais rhywiol, yn ogystal â meysydd eraill o gamfanteisio. Nid yw’n gwanhau’r gwaith sydd wedi’i wneud dan gyfarwyddyd y Bwrdd VAWDASV ond, yn hytrach, yn ein cefnogi ni i ystyried y rhaglen o safbwynt mwy cyfannol, gan ddatblygu meysydd cydweithio newydd o safbwynt cyflawni ac ymchwilio i gyfleoedd newydd ar gyfer comisiynu ar y cyd.

# Llywodraethu

Bydd Bwrdd Partneriaeth Bregusrwydd a Chamfanteisio yn atebol am y Strategaeth Bregusrwydd a Chamfanteisio. Wedi’i gadeirio gan y Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, mae’r Bwrdd Partneriaeth Strategol yn darparu trosolwg, cyfeiriad a chefnogaeth i bartneriaid lleol i sicrhau diwylliant o gydweithio. Mae’r bwrdd yn cwrdd bob chwarter i fonitro a gwerthuso’r cynnydd tuag at gyrraedd a chyflawni’r nodau a’r amcanion strategol a geir yn y Cynllun Cyflawni a’r Camau Gweithredu. Yn eu tro, bydd y ffrydiau gwaith yn mynd i’r afael â nodau ac amcanion y Cynllun Cyflawni ac yn symud gwaith y meysydd rhaglen yn ei flaen, gan adlewyrchu'r gwaith dan gyfarwyddyd ffrydiau gwaith cenedlaethol VAWDASV. Bydd y gwaith yma wedyn yn cael ei adrodd yn ôl i’r Bwrdd Strategol a Llywodraeth Cymru yn chwarterol.

Mae Cadeirydd y Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio yn cwrdd â chymheiriaid o Fwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel, Byrddau Diogelu (Oedolion/Plant), Bwrdd Herio, Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol, Bwrdd Cynllunio Ardal a’r Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol i sicrhau bod y ffrydiau gwaith yn alinio.

## Cynrychiolwyr a Phartneriaid Bwrdd Beiusrwydd a Chamfanteisio

- Cyngor Sir Ynys Môn
- Barnardo's / Gwarcheidwaid Masnachu Mewn Plant Annibynnol
- BAWSO
- BIPBC
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- DASU Gogledd Cymru
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Gwynedd
- Hafan o Oleuni
- CEM Berwyn
- Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid G. Cymru
- Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
- Y Gwasanaeth Prawf
- RASASC Cymru
- Tîm Rhanbarthol VAWDASV
- Grŵp Arweinyddiaeth Gwrth-Gaethwasiaeth
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Caiff ffrydiau gwaith ar wahân neu Grwpiau Tasg a Gorffen, sy'n cynnwys partneriaid priodol, eu datblygu er mwyn cymryd y camau gweithredu a chyflawni'r nodau a'r amcanion strategol priodol. Er nad yw hon yn rhestr lawn, fe all gynnwys:

- Cymorth i Ferched Aberconwy
- Gweithredu dros Blant
- Advance Brighter Futures
- Llu’r Ffiniau AVOW (Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam)
- Partneriaeth Parc Caia
- Cymorth i Ferched Cymdeithas Tai Clwyd Alyn
- Cymdeithas Tai Clwyd Alyn
- Gwasanaeth Erlyn y Goron
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Tîm Cymru (EYST)
- Ffrindiau Teulu
- Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Llafur
- Gorwel
- Hafan Cymru
- CThEM
- Home-Start Wrecsam
- Lucy Faithfull Foundation
- Cymorth i Fudwyr
- Llinell Gymorth Caethwasiaeth Fodern
- Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol
- National Ugly Mugs (NUM)
- Llwybrau Newydd
- NFU
- NSPCC
- Canolfan Merched Gogledd Cymru
- PACT
- Polish Integrated Support Centre (PISC)
- Y Groes Goch
- Cyngor Ffoaduriaid
- Byddin yr Iachawdwriaeth
- Cerrig Camu
- TGP Cymru
- Ymddiriedolaeth Trussell
- Cymorth i Ddioddefwyr
- Cymdeithas Tai Wales and West

# Meysydd cynnydd penodol yn 2022/23

Yn 2022/23 gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr atgyfeiriadau i'r sector arbenigol, wrth i ddioddefwyr a goroeswyr fagu hyder i ofyn am gymorth yn dilyn llacio cyfyngiadau COVID-19. Gwelodd gwasanaethau gynnydd o bron i 50% a chynyddodd y rhestrau aros ar gyfer rhai gwasanaethau arbenigol a therapiwtig. Fodd bynnag, roedd hefyd yn flwyddyn o fwy o adnoddau, gan Lywodraeth Cymru a thrwy gyllidwyr fel y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref, felly fe welodd y gogledd y swm mwyaf o gyllid VAWDASV ers rhanbartholi.

Cafodd y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ei sefydlu'n llawn o fewn cynlluniau hyfforddiant yr awdurdodau lleol, BIPBC a Gwasanaeth Tân ac Achub GC, gyda'r cyfraddau cwblhau yn codi'n gyflym. Roedd y broses o recriwtio Cefnogwyr Gofyn a Gweithredu (Grŵp 3) yn araf deg, ond mae pethau wedi gwella yn ystod y deuddeg mis diwethaf.

Mae prosiect peilot IRIS yng nghlwstwr meddygfeydd De Sir Ddinbych wedi bod yn llwyddiant ysgubol, gyda thros gant o feddygon teulu a staff wedi derbyn hyfforddiant uwch a chefnogaeth i adnabod camdriniaeth ddomestig a gwneud atgyfeiriadau ar gyfer ymyrraeth gynnar. Rydym ni'n gobeithio y bydd y prosiect hwn yn cael ei gyflwyno ar draws yr ardal ganol yn 2023/24 ac yna ar draws y rhanbarth ehangach yn ystod y ddwy flynedd nesaf, ond mae cyllid cynaliadwy wastad yn bryder.

Cwblhawyd Asesiad o Anghenion VAWDASV Gogledd Cymru yn ystod y cyfnod hwn, gan ddangos y cynnydd cyflym mewn atgyfeiriadau i'r sector arbenigol a'r angen am ddod â chyllid at ei gilydd yn amlach i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu comisiynu mewn modd effeithiol ac effeithlon. Mae mwy o ddarpariaethau ar gael nag erioed o'r blaen, gyda rhaglenni adfer wedi'u sefydlu yn y ddarpariaeth bresennol ar draws y rhanbarth.

Mae plant a phobl ifanc sydd wedi'u heffeithio gan VAWDASV wedi bod yn flaenoriaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mae yna fwy o weithwyr plant a phobl ifanc arbenigol o fewn gwasanaethau nag erioed o'r blaen. Maent yn cynnig amrywiaeth o gefnogaeth, yn cynnwys cymorth un-i-un a therapi chwarae mewn llochesi ac fel rhan o raglenni wedi'u targedu mewn llawer o ysgolion yn y gogledd.

Defnyddiwyd cyllid cyfalaf ar gyfer unedau i fynd i'r afael ag anghenion blaenorol heb eu diwallu, sef teuluoedd sy'n ffoi trais ar y penwythnos neu y tu allan i oriau swyddfa. Mae llawer o deuluoedd wedi gorfod aros mewn gwestai lleol os nad oes lle iddynt mewn llochesi, ac mae hynny'n golygu nad oes ganddynt gyfleusterau cegin na lle i anifeiliaid anwes. Mae yna erbyn hyn adeilad penodol sy'n rhoi "cartref" go iawn i deuluoedd mawr tra bod nhw'n aros am ddarpariaeth fwy hirdymor a phriodol. Mae hyn yn cynyddu eu siawns o gymryd y cam olaf i symud draw oddi wrth y rhiant treisgar yn ogystal â rhoi cyfle iddynt fod yn deulu o fewn eu gofod eu hunain.

**Bregusrwydd a Chamfanteisio: Trais yn Erbyn Merched, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)**

| **Rhif** | **Amcanion Strategol** *(Beth sydd arnom ni eisiau ei wneud?)* | **Gweithgaredd Tanategol** *(Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?)* | **Arweinydd / Perchennog** *(Pwy fydd yn gwneud hyn?)* | **Amserlen** *Pryd fyddwn yn gwneud hyn?* | **Canlyniadau/Allbwn/ Mesurau** *(Beth yw llwyddiant?)* | **Statws/Diweddariad Gwyrdd/Ambr/Coch** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **VAWDASV 1** | Herio agwedd y cyhoedd tuag at VAWDASV drwy godi ymwybyddiaeth, a gwneud lle ar gyfer trafodaeth gyhoeddus gyda'r nod o'i leihau | Rhannu ymgyrchoedd Llywodraeth Cymru a deunyddiau marchnata Byw Heb Ofn gydag asiantaethau partner allweddol (Tîm VAWDASV rhanbarthol) ac yna gydag asiantaethau partner lleol er mwyn iddynt hyrwyddo deunyddiau drwy eu tudalennau cyfryngau cymdeithasol, gwefannau ac ati | Tîm Rhanbarthol VAWDASV / Pob partner | Yn parhau | Deunyddiau hyrwyddol yn cael eu rhannu a'u dosbarthu'n lleol. | **Statws- Gwyrdd** Mae'r gwaith hwn yn rhan o gylch gwaith y Tîm Rhanbarthol, sy'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r holl ymgyrchoedd cenedlaethol. Mae'r Ymgynghorydd Rhanbarthol yn aelod o Grŵp Cyfathrebu Cymru Gyfan ac yn rhannu'r holl wybodaeth berthnasol i'r Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio. |
| | | Comisiynu rhaglenni rhianta a chefnogaeth deuluol i sicrhau bod perthnasau diogel ac iach yn cael eu | Grŵp Comisiynu Rhanbarthol VAWDASV | Erbyn mis Mawrth 2023 | Ceir darpariaeth o raglenni cymorth i deuluoedd ar draws y rhanbarth | Mae rhaglenni cymorth i deuluoedd a gweithwyr penodol ar gyfer plant a |

| Rhif | Amcanion Strategol *(Beth sydd arnom ni eisiau ei wneud?)* | Gweithgaredd Tanategol *(Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?)* | Arweinydd / Perchennog *(Pwy fydd yn gwneud hyn?)* | Amserlen *Pryd fyddwn yn gwneud hyn?* | Canlyniadau/Allbwn/ Mesurau *(Beth yw llwyddiant?)* | Statws/Diweddariad Gwyrdd/Ambr/Coch |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | modelu, a bod unrhyw agwedd amhriodol tuag at anghydraddoldeb ar sail rhyw yn cael eu herio ac yn cael sylw priodol | | | | phobl ifanc wedi'u comisiynu ar draws y sector arbenigol, gan sicrhau bod yna gefnogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ar draws y rhanbarth. |
| | | Herio agweddau diwylliannol a newid arferion a all danategu anffurfio organau cenhedlu benywod, trais yn seiliedig ar anrhydedd a phriodasau dan orfod | Ffrwd waith camdriniaeth ar sail anrhydedd ac arferion niweidiol | Yn parhau | Mwy o adroddiadau am gamdriniaeth ar sail anrhydedd | **Statws- Ambr** Mae ffrwd waith camdriniaeth ar sail anrhydedd wedi'i sefydlu ond mae'r gwaith wedi'i oedi wrth i ni ddatblygu cysylltiadau â'r ffrwd waith genedlaethol. |
| | | Integreiddio VAWDASV i gontractau prif ffrwd i sefydlu cymorth ar gyfer dioddefwyr a'u teuluoedd o fewn gwasanaethau cyffredinol e.e. camddefnyddio sylweddau, | Grŵp Comisiynu Rhanbarthol VAWDASV | Erbyn mis Mawrth 2023 | Gwasanaethau integredig ar gyfer dioddefwyr gydag anghenion cymhleth | **Statws- Ambr** Tîm Rhanbarthol yn gweithio gyda'r Bwrdd Cynllunio Ardal a chomisiynwyr yr awdurdodau lleol (Grant Cymorth Tai) i sicrhau bod VAWDASV yn cael ei ystyried wrth |

| Rhif | Amcanion Strategol *(Beth sydd arnom ni eisiau ei wneud?)* | Gweithgaredd Tanategol *(Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?)* | Arweinydd / Perchennog *(Pwy fydd yn gwneud hyn?)* | Amserlen *Pryd fyddwn yn gwneud hyn?* | Canlyniadau/Allbwn/ Mesurau *(Beth yw llwyddiant?)* | Statws/Diweddariad Gwyrdd/Ambr/Coch |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | digartrefedd ac iechyd meddwl | | | | gefnogi teuluoedd diamddiffyn. Mae unedau penodol ar gyfer y rheiny gydag anghenion cymhleth wedi'u comisiynu yn 21/22 a 22/23. |
| **VAWDASV 2** | Codi ymwybyddiaeth plant, pobl ifanc ac oedolion o bwysigrwydd perthnasau diogel, cyfartal ac iach, a'u grymuso i wneud dewisiadau personol cadarnhaol | Darparu gweithwyr cefnogi plant mewn asiantaethau arbenigol, i weithio gyda phlant sydd yn/wedi profi VAWDASV yn ogystal â gwaith codi ymwybyddiaeth gydag ysgolion a grwpiau ieuenctid lleol | Grŵp Comisiynu Rhanbarthol VAWDASV / Ffrwd Waith Plant a Phobl Ifanc | Erbyn mis Mawrth 2023 | Gweithwyr plant a phobl ifanc ar gael ymhob ardal | **Statws- Gwyrdd** Mae gweithwyr plant a phobl ifanc ychwanegol wedi'u comisiynu yn ystod 22/23 gyda chyllid ar sail anghenion gan Lywodraeth Cymru – mae'r swyddi hyn wedi'u dwyn ymlaen i 23/24 hefyd. |
| | | Ysgolion a cholegau i weithredu ethos wedi'i lywio gan drawma, gan alluogi pobl ifanc i deimlo'n ddiogel i ddatgelu camdriniaeth | Ffrwd Waith Plant a Phobl Ifanc | Yn parhau | Mwy o adroddiadau mewn ysgolion | **Statws- Ambr** Mae ffrwd waith plant a phobl ifanc wedi'i sefydlu ond mae'r gwaith wedi'i oedi tra bod themâu trawsbynciol gyda'r |

| Rhif | **Amcanion Strategol** *(Beth sydd arnom ni eisiau ei wneud?)* | **Gweithgaredd Tanategol** *(Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?)* | **Arweinydd / Perchennog** *(Pwy fydd yn gwneud hyn?)* | **Amserlen** *Pryd fyddwn yn gwneud hyn?* | **Canlyniadau/Allbwn/ Mesurau** *(Beth yw llwyddiant?)* | **Statws/Diweddariad Gwyrdd/Ambr/Coch** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Bwrdd Diogelu a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cael eu hailddewis. Mae'r gwaith yma'n debygol o gael ei wneud gan is-grŵp plant y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. |
| | | Ysgolion a cholegau yn datblygu dull i weithio gyda phobl ifanc fel gwylwyr i hyrwyddo'r elfen o atal VAWDASV a newid cymdeithasol pellach | Ffrwd Waith Plant a Phobl Ifanc | Erbyn mis Mawrth 2023 | Darparu hyfforddiant gwylwyr mewn ysgolion | **Staws- Coch** Bydd yr hyfforddiant gwylwyr yn cael ei gomisiynu gyda hyn ac yna'n cael ei ddarparu'n ganolog, felly mae'r gwaith wedi'i oedi tra bod y pecyn hyfforddiant yn cael ei greu. |
| **VAWDASV 3** | Rhoi mwy o ffocws ar ddal y rheiny sy'n cyflawni camdriniaeth i gyfrif a chefnogi'r rheiny sy'n | Comisiynu rhaglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer y rheiny sy'n cyflawni troseddau ac ymyraethau teulu cyfan, gan ganolbwyntio ar annog a newid | Grŵp Comisiynu Rhanbarthol VAWDASV | Erbyn mis Mawrth 2023 | Mae yna ddarpariaeth briodol yn y rhanbarth o ymyraethau ar gyfer y rheiny sy'n cyflawni troseddau | **Statws- Gwyrdd** Darpariaeth gymunedol ar gyfer y rheiny sy'n cyflawni troseddau (newid ymddygiad) wedi'i gomisiynu. (Choose2Change) |

| Rhif | Amcanion Strategol *(Beth sydd arnom ni eisiau ei wneud?)* | Gweithgaredd Tanategol *(Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?)* | Arweinydd / Perchennog *(Pwy fydd yn gwneud hyn?)* | Amserlen *Pryd fyddwn yn gwneud hyn?* | Canlyniadau/Allbwn/ Mesurau *(Beth yw llwyddiant?)* | Statws/Diweddariad Gwyrdd/Ambr/Coch |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | ymddwyn mewn ffordd gamdriniol neu dreisgar i newid eu hymddygiad ac i beidio â throseddu eto | ymddygiad ar yr un pryd â diogelu dioddefwyr/teuluoedd rhag camdriniaeth bellach | | | | Mae hyn yn cynnwys cymorth i'r partner a'r plant, yn unol â safonau Llywodraeth Cymru. Mae Caring Dads hefyd wedi'i gomisiynu fel rhaglen rianta ar gyfer y rheiny sydd wedi cyflawni troseddau. |
| | | Darparu hyfforddiant priodol i weithwyr proffesiynol i sicrhau eu bod yn adnabod camdriniaeth ac effaith hynny ar ymgysylltiad y teulu cyfan â gwasanaethau | Ffrwd waith y rheiny sy'n cyflawni troseddau | Erbyn mis Mawrth 2023 | Gweithwyr proffesiynol yn adnabod arwyddion ac effaith gweithio gydag unigolyn sydd wedi cyflawni trosedd o fewn teulu diamddiffyn | **Staws- Gwyrdd** Mae chwe charfan o 25 gweithiwr proffesiynol wedi derbyn hyfforddiant gyda Safe Lives, a oedd yn canolbwyntio ar weithio gyda phobl sy'n cyflawni troseddau o fewn teulu diamddiffyn (ymgysylltu â'r rheiny sy'n niweidio). |

| Rhif | Amcanion Strategol<br>*(Beth sydd arnom ni eisiau ei wneud?)* | Gweithgaredd Tanategol<br>*(Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?)* | Arweinydd / Perchennog<br>*(Pwy fydd yn gwneud hyn?)* | Amserlen<br>*Pryd fyddwn yn gwneud hyn?* | Canlyniadau/Allbwn/ Mesurau<br>*(Beth yw llwyddiant?)* | Statws/Diweddariad Gwyrdd/Ambr/Coch |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Rhoi cymorth o'r ddalfa i'r gymuned yn ei le ar gyfer y rheiny sy'n cyflawni troseddau a'u teuluoedd | I'w gadarnhau – fe all ddod o dan y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol | Erbyn mis Mawrth 2023 | Llwybr cadarn o asesiad i raglen yn y carchar, ac yna'n parhau yn y gymuned wedi iddynt gael eu rhyddhau | **Statws- Coch**<br>Mae'r darn yma o waith yn dod o dan y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol. Mae angen sefydlu llwybr cyfathrebu i sicrhau bod y Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio yn cael gwybod am y cynnydd. |
| | | Adnabod ac erlyn y rheiny sy'n cyflawni troseddau trais rhywiol | Grŵp Trais Rhywiol / Grŵp Sawl sy'n Cyflawni Trosedd | Yn parhau | - Cyfraddau gadael is<br>Mwy o erlyniadau | **Statws- Ambr**<br>Mae'r gwaith yma'n rhan o'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol, ond mae yna rywfaint o orgyffwrdd â'r ffrwd waith Trais Rhywiol. Mae'r ffrwd waith yn canolbwyntio ar samplu achosion |

| **Rhif** | **Amcanion Strategol** *(Beth sydd arnom ni eisiau ei wneud?)* | **Gweithgaredd Tanategol** *(Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?)* | **Arweinydd / Perchennog** *(Pwy fydd yn gwneud hyn?)* | **Amserlen** *Pryd fyddwn yn gwneud hyn?* | **Canlyniadau/Allbwn/ Mesurau** *(Beth yw llwyddiant?)* | **Statws/Diweddariad Gwyrdd/Ambr/Coch** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Dim Gweithredu Pellach i weld yn lle y gallai'r sector arbenigol fod wedi'u cynnwys i gefnogi'r dioddefwr yn ystod y broses cyfiawnder troseddol. |
| **VAWDASV 4** | Blaenoriaethu ymyrraeth gynnar ac atal | Cyflwyno'r rhaglen IRIS ar draws y gogledd | Grŵp Comisiynu Rhanbarthol VAWDASV | Erbyn mis Mawrth 2023 | Mwy o adroddiadau i feddygfeydd ar draws y gogledd | **<u>Statws- Ambr</u>** Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi ariannu prosiect peilot yng nghlwstwr De Sir Ddinbych sydd wedi'i gwblhau'n llwyddiannus, ond mae risg ynghlwm wrth y cyllid sydd ei angen i barhau â'r prosiect a'i gyflwyno'n ehangach. Mae BIPBC wedi ymrwymo i gynnal |

| Rhif | Amcanion Strategol *(Beth sydd arnom ni eisiau ei wneud?)* | Gweithgaredd Tanategol *(Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?)* | Arweinydd / Perchennog *(Pwy fydd yn gwneud hyn?)* | Amserlen *Pryd fyddwn yn gwneud hyn?* | Canlyniadau/Allbwn/ Mesurau *(Beth yw llwyddiant?)* | Statws/Diweddariad Gwyrdd/Ambr/Coch |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | y peilot am ddau chwarter yn 23/24, ond nid oes cadarnhad ynghylch estyn y prosiect ymhellach an hynny. |
| | | Mwy o gefnogaeth i fenywod a merched yn ystod economi'r nos –<br>• Marsialiaid stryd<br>• Mwy o bresenoldeb yr heddlu<br>• Amgylchedd mwy diogel gyda goleuadau stryd<br>Hyfforddiant ar gyfer deiliaid trwyddedau | Bwrdd Gogledd Cymru Mwy Diogel – cyllid Strydoedd Mwy Diogel | Erbyn mis Mawrth 2023 | Lleihad mewn troseddau VAWDASV ar y stryd | **Statws- Gwyrdd**<br>Mae cyllid Strydoedd Mwy Diogel wedi'i sicrhau ar gyfer Wrecsam, Sir y Fflint ac Ynys Môn i ddarparu strydoedd mwy diogel i fenywod a merched. Mae hyn yn cynnwys goleuadau stryd, TCC a marsialiaid stryd a mwy o bresenoldeb yr heddlu. |

| **Rhif** | **Amcanion Strategol** *(Beth sydd arnom ni eisiau ei wneud?)* | **Gweithgaredd Tanategol** *(Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?)* | **Arweinydd / Perchennog** *(Pwy fydd yn gwneud hyn?)* | **Amserlen** *Pryd fyddwn yn gwneud hyn?* | **Canlyniadau/Allbwn/ Mesurau** *(Beth yw llwyddiant?)* | **Statws/Diweddariad Gwyrdd/Ambr/Coch** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Rhaglen hyfforddiant wedi'i datblygu ar gyfer busnesau ac undebau llafur i fynd i'r afael ag aflonyddwch yn y gweithle | Grŵp Comisiynu Rhanbarthol i weithio gyda'r Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol | Erbyn mis Mawrth 2024 | Hyfforddiant wedi'i gyflwyno i'r sector cyhoeddus a'r sector preifat | **Statws- Ambr** Ymgynghorydd Rhanbarthol yn ymgysylltu â thîm hyfforddiant Llywodraeth Cymru i sicrhau bod pecyn hyfforddiant cenedlaethol yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno i fusnesau lleol. |
| **VAWDASV 5** | Hyfforddi gweithwyr proffesiynol perthnasol i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol ac addas i ddioddefwyr a goroeswyr | Gweithredu Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol i sicrhau bod pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio mewn swyddi sy'n wynebu'r cyhoedd wedi'u harfogi i gefnogi dioddefwyr a goroeswyr VAWDASV | Grŵp Datblygu'r Gweithlu Rhanbarthol | Yn parhau | Pob gweithiwr proffesiynol yn derbyn hyfforddiant lefel 2/3 | **Statws- Ambr** Grwpiau Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol 1, 2 a 3 bellach wedi'u sefydlu yng nghynlluniau hyfforddiant blynyddol awdurdodau lleol, BIPBC, Gwasanaeth Tân ac Achub GC. Mae cyfraddau cwblhau |

| Rhif | Amcanion Strategol *(Beth sydd arnom ni eisiau ei wneud?)* | Gweithgaredd Tanategol *(Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?)* | Arweinydd / Perchennog *(Pwy fydd yn gwneud hyn?)* | Amserlen *Pryd fyddwn yn gwneud hyn?* | Canlyniadau/Allbwn/ Mesurau *(Beth yw llwyddiant?)* | Statws/Diweddariad Gwyrdd/Ambr/Coch |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Grŵp 1 (Ymwybyddiaeth o VAWDASV) yn fwy na 50% ar gyfer pob awdurdod lleol a thros 80% i un ac mae dros 2000 aelod o staff ar draws y rhanbarth wedi cwblhau Grwpiau 2 a 3 Gofyn a Gweithredu. |
| | | Gweithio gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol, i sicrhau bod hyfforddiant digonol yn cael ei roi i gefnogi dioddefwyr VAWDASV drwy ddefnyddio atebion sifil | Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol | Yn parhau | Pob dioddefwr yn cael gwybod beth yw eu hawliau o ran rhwymedïau sifil | **<u>Statws- Ambr</u>** Diweddariadau gan y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol. |
| | | Gweithio gyda llysoedd troseddol a theuluol i sicrhau bod | Bwrdd Cyfiawnder | Yn parhau | Pob aelod o staff y llys yn derbyn hyfforddiant ar effaith | **<u>Statws- Ambr</u>** Diweddariadau gan y Bwrdd |

| **Rhif** | **Amcanion Strategol** *(Beth sydd arnom ni eisiau ei wneud?)* | **Gweithgaredd Tanategol** *(Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?)* | **Arweinydd / Perchennog** *(Pwy fydd yn gwneud hyn?)* | **Amserlen** *Pryd fyddwn yn gwneud hyn?* | **Canlyniadau/Allbwn/ Mesurau** *(Beth yw llwyddiant?)* | **Statws/Diweddariad Gwyrdd/Ambr/Coch** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | hyfforddiant priodol yn cael ei gynnig ar ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol, a'r cyswllt â stelcio ac uwchgyfeirio | Troseddol Lleol | | ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol, stelcio ac uwchgyfeirio risgiau yn ymwneud â thrais domestig | Cyfiawnder Troseddol Lleol. |
| **VAWDASV 6** | Rhoi mynediad cyfartal i bob dioddefwr at wasanaethau gydag adnoddau addas, sydd o ansawdd uchel ac yn cael eu harwain gan a chryfderau, ac yn groestoriadol | Darparu cymorth arbenigol i ddioddefwyr yn seiliedig ar eu hanghenion unigol | Grŵp Comisiynu Rhanbarthol VAWDASV | Yn parhau | Pecynnau cymorth ar gael yn seiliedig ar anghenion unigol | **Statws- Gwyrdd** Sector arbenigol wedi'i gomisiynu i ddarparu ystod o ymyraethau, yn cynnwys cymorth cyfoedion, rhaglenni grŵp ac ymyraethau therapiwtig unigol, wedi'u darparu gan staff medrus a chymwys iawn. |
| | | Darparu gwasanaeth Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig/Cynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol gyson ar | Grŵp Comisiynu Rhanbarthol VAWDASV | Contract yn ei le tan 2023/24 | Mae pob dioddefwr risg uchel yn gallu cael mynediad at gymorth Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig/Cynghorydd | **Statws- Gwyrdd** Hon fydd pumed flwyddyn y contract Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig yn |

| Rhif | Amcanion Strategol *(Beth sydd arnom ni eisiau ei wneud?)* | Gweithgaredd Tanategol *(Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?)* | Arweinydd / Perchennog *(Pwy fydd yn gwneud hyn?)* | Amserlen *Pryd fyddwn yn gwneud hyn?* | Canlyniadau/Allbwn/ Mesurau *(Beth yw llwyddiant?)* | Statws/Diweddariad Gwyrdd/Ambr/Coch |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | draws y gogledd, gan gynnig yr un gwasanaeth i ddioddefwyr VAWDASV, waeth lle maent yn byw | | | Annibynnol ar Drais Rhywiol | ac felly bydd y contract yn destun gwerthusiad llawn yn ystod y flwyddyn ariannol hon. |
| | | Darparu proses Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg / ADAPT safonol ar draws y gogledd | Grŵp Llywio Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg / ADAPT | Erbyn mis Mawrth 2023 | Mae pob dioddefwr risg uchel wedi'i glywed yn ystod Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg Lleol | **Statws- Gwyrdd** Mae Protocol Gweithredu Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg Rhanbarthol wedi'u ddatblygu a'i fabwysiadu ac mae ADAPT wedi'i sefydlu'n llwyr ar draws y rhanbarth. |
| | | Darparu rhaglenni adfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi dioddefwyr i fagu gwytnwch ac i gryfhau eu rhwydwaith o | Grŵp Comisiynu Rhanbarthol VAWDASV | Erbyn mis Mawrth 2023 | Cynyddu nifer yr unigolion sy'n rhan o raglenni adfer | **Statws- Gwyrdd** Ystod o raglenni adfer yn cael eu darparu gan ddarparwyr sy'n helpu dioddefwyr cam-drin domestig |

| Rhif | Amcanion Strategol *(Beth sydd arnom ni eisiau ei wneud?)* | Gweithgaredd Tanategol *(Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?)* | Arweinydd / Perchennog *(Pwy fydd yn gwneud hyn?)* | Amserlen *Pryd fyddwn yn gwneud hyn?* | Canlyniadau/Allbwn/ Mesurau *(Beth yw llwyddiant?)* | Statws/Diweddariad Gwyrdd/Ambr/Coch |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ffrindiau a theulu sy'n gallu eu cefnogi | | | | a thrais rhywiol ar draws y rhanbarth. |
| | | Ymrwymo i gynllunio at y dyfodol o ran cyllido unrhyw gontract VAWDASV, i sicrhau cynaliadwyedd | Grŵp Comisiynu Rhanbarthol VAWDASV | Yn parhau | Cynllun Comisiynu ar y Cyd 23/24 yn ei le | **Statws- Gwyrdd** Mae cyfarfodydd cynllunio at y dyfodol wedi'u cynnal gyda'r tîm VAWDASV rhanbarthol, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Bwrdd Cynllunio Ardal, Grant Cymorth Tai, BIPBC a chomisiynwyr awdurdodau lleol. Bydd y rhain yn parhau drwy gydol 23/24 i sicrhau bod yr asesiad o anghenion yn cael ei ddiweddaru a bod y comisiynu yn ymateb i |

| Rhif | Amcanion Strategol<br>*(Beth sydd arnom ni eisiau ei wneud?)* | Gweithgaredd Tanategol<br>*(Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?)* | Arweinydd / Perchennog<br>*(Pwy fydd yn gwneud hyn?)* | Amserlen<br>*Pryd fyddwn yn gwneud hyn?* | Canlyniadau/Allbwn/ Mesurau<br>*(Beth yw llwyddiant?)* | Statws/Diweddariad Gwyrdd/Ambr/Coch |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | anghenion rhanbarthol. |